

26.1.2021

Annwyl riant/warcheidwad,

Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch a lenwodd ein holiadur diweddar ar Ddysgu o Bell. Rydym bellach wedi derbyn dros 1,000 o ymatebion trwy'r holiadur rhieni, disgyblion a staff. Golyga hyn ein bod mewn sefyllfa gref iawn i ddadansoddi ein darpariaeth bresennol ac i wneud unrhyw newidiadau y medrwn ni.

Rydym yn falch iawn o glywed am y llwyddiannau sydd ar waith wrth ddysgu eich plant o bell ac hefyd yn gwerthfawrogi'ch sylwadau a'ch syniadau am ffyrdd o addasu'r ddarpariaeth bresennol. Gwnewn ein gorau i ymateb i geisiadau unigol sy'n codi yn yr holiaduron, ond dyma'r prif themâu a godwyd ar draws y 3 holiadur:

1. Cais i leihau'r amser ar sgrîn e.e. trwy leihau'r nifer o wersi byw, lleihau'r amser 'byw' neu drwy osod mwy o dasgau sy'n gallu cael eu cwblhau ar bapur.
2. Caniatâu mwy o amser mewn gwersi i GWBLHAU tasgau ac i wneud y gwaith.
3. Cyfnod lles wythnosol i bawb – cyfle i ddal i fyny gyda thasgau, i gael seibiant o'r sgrîn, i ymlacio a chael ffocws ar les personol.

Wrth i ni ddechrau felly ar fis arall o Ddysgu o Bell, byddwn ni'n gwneud y newidiadau canlynol i'n darpariaeth hyd at hanner tymor o leiaf:

- Bydd bob **prynhawn dydd Gwener o 12.30 ymlaen yn amser lles i staff a disgyblion**. Ni fydd gwersi byw na gwaith yn cael ei osod ar Teams. Anogwn ein disgyblion i fanteisio ar y cyfle i ymlacio ar ôl wythnos o waith trwy fynd am dro, gwyllo ffilm, chwarae gêm ac i gael seibiant o'r sgrîn.
- Byddwn ni'n **lleihau'r canran o wersi 'byw' ychydig** er mwyn sicrhau bod gan ein disgyblion **ddigon o amser i gwblhau tasgau ac i ddal i fyny gyda'r gwaith sydd wedi cael ei osod**. Rydym yn argymhell nad oes mwy na 75% o wersi pob pwnc yn 'fyw' fel bod amser yn y 25% arall i gwblhau tasgau ac i leihau straen ar ein disgyblion.
- Bl.7-11: **Ni fyddwn ni'n gosod Gwaith Cartref ar ben y gwaith a wneir yn y gwersi**. Mae'n bosib y bydd dal negeseuon yn cael eu gosod ar Show My Homework i chi yn eich hysbysu o'r gwaith sydd angen ei gwblhau yn y gwersi, ond ni fydd hwn yn waith ychwanegol i'r disgyblion.

Gobeithiwn yn fawr y bydd y camau uchod yn gwneud ychydig i leihau'r straen sy'n ein hwynebu ni gyd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Byddwn ni'n parhau i fonitro'r ddarpariaeth gan edrych ymlaen yn fawr at fedru dysgu ein disgyblion wyneb i wyneb pan fydd hi'n ddiogel i ni gyd.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

[swyddfabryntawe5@hwbcymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwbcymru.net)

[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR  
MEWN POBL** | Aur

